

Evan Jones, Tredegar: (Ieuan Gwynedd)

Cafodd Evan Jones ei eni yn Bryn Tynoriaid yn ymyl Dolgellau yn 1820, un o chwech plentyn yn y teulu. Dysgodd ei fam êf i ddarllen ag aeth i Goleg Aberhonddu i astudio diwinyddiaeth. Pan orffenodd y cwrs yn 1845 cafodd ei ordeinio fel gwenidog i Gapel Saron yn Tredegar oedd gynt yn sir Gwent ond sydd nawr ym Mlaenau Gwent. 'Roedd y capel yn un llwyddianus iawn gyda rhwng 600 a 700 o aelodau ag yma yn y capel priododd Catherine ym Mîs Tachwedd 1845. Ond ar ddechrau ei urfa fel gwenidog y capel bû farw ei fam yn 1847 ag yna ei wraig a'i unig blentyn. Ar hyd ei oes 'roedd Evan Jones wedi dioddef iechyd gwael ag fe benderfynodd adael Capel Saron yn 1847. Ail briododd yn 1848 a Rachel o Tredwstan.



Capel Saron heddiw, Mai 9ed 2016. Llŷn ©Eifion Lloyd Davies.

Mae'r flwyddyn 1847 yn nodwedol iawn oherwydd dyna pryd cyhoeddwyd yr adroddiad enwog a elwir "Brâd y Llyfrau Gleision". Hwn oedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan dri sais anglicanaidd oedd heb ddim gwybodaeth o Gymru na'r iaith Gymraeg. Yn yr adroddiad 'roedd condemiad o'r iaith Gymraeg, anghydfurfiaeth ac yn anwedig am ferched Cymreig; yn ol yr adroddiad yr oeddynt heb addysg, yn anniwair ag yn anfoesol. Yn naturiol, 'roedd Evan Jones wedi gwylltio ag aeth ati i gyhoeddi ei ddîg am yr enllib yn erbyn Y Cymry.

Yn 1850, 'roedd Evan Jones yn olygydd y cylchgrawn Cymraeg i ferched, "Y Gymraes". Dyma'r cylchgrawn cyntaf i ferched yng Nghymru ag yn y Gymraeg, yn wîr efallai mai dyma'r cylchgrawn cyntaf i ferched o bob safon cymdeithasol ym Mhrydain. ('Roedd cylchgrawn saesneg "The Lady" ar fod ers 1770 wedi' i anelu yn unig at y bonheddigion.) Pwrpas "Y Gymraes" oedd hyrwyddo addysg i ferched, codi'r awydd i fedru darllen, ysgrifennu a hyd yn oed cyhoeddi erthyglau ag ati. Mae'n ddigon posibl fod y cylchgrawn wedi codi safonau marchod Cymru oherwydd gellir dadlau fod mwy o ferched mewn prifysgol Cymru ar ddiwedd y ganrif nag yn unrhyw brifysgol yn Lloegr.

Cafodd y cylchgrawn ei ariannu gan Gwenynen Gwent sêf Augusta Hall (Lady Llanofar) a wnaeth ymgynt dros yr iaith Gymraeg ag i ddiogelu traddodiadau Cymreig. Yn y cylchgrawn 'roedd erthyglau am grefydd, bywyd priodasol, dirwest a bôd yn foesol. Ceisiodd Evan Jones greu y ferch Gymreig perffaith gan obeithio y bÿdd y darllenwyr yn canlyn yr engraifft. Yn anffodus bywyd byr oedd i'r

cylchgrawn “Y Gymraes”, ‘roedd Evan Jones yn dioddef o iechyd gwael a bu farw yn 1852 ac fe gladdwyd yn y Groes-Wen .

Ond nid dyna’r diwedd. Daeth “Y Gymraes” yn rhan o gylchgrawn newydd “Y Tywysydd a’r Gymraes” a blynnyddoedd yn hwyrach penderfynwyd adfywio’r “Gymraes” yn 1896 (y golygydd oedd Alice Gray Jones sêf Ceridwen Peris) ag aeth ymlaen tan 1934.

Adnoddau: Dr Colin Morgan,
(Am fwy o wybodaeth ceisiwch gael copî o ddarlith Rhiannon Gregory “Cofio Ieuan Gwynedd”. Mae gwybodaeth Hefyd iw gael hefyd ar y wê)